DRAFT

# STRATEGAETH DRAWSNEWID STRATEGOL 2026 I 2029

CYNGOR SIR Y FFLINT

**Rheoli Fersiynau a Phwyntiau Adolygu**

[I’w ddrafftio a’i gynnwys yn y fersiwn derfynol, ar ôl ymgynghori]

DRAFT

# Cynnwys

Rhagair ........ 3

Cyflwyniad ........ 4

Crynodeb Gweithredol ........ 5

Gweledigaeth ac Amcanion y Cyngor ........ 6

Cyd-destun ........ 7

Cyd-destun Gwleidyddol ........ 7

Heriau Gwasanaeth ac Ariannol ........ 7

Heriau Gwasanaeth ........ 7

Heriau Ariannol ........ 7

Risgiau Corfforaethol ........ 9

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ........ 9

Cynlluniau a Strategaethau Cysylltiedig ........ 10

Cynllun y Cyngor ........ 10

Cynllun/Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ........ 11

Strategaeth Ddigidol ........ 12

Strategaeth Gomisiynu ........ 12

Polisi Cynhyrchu Incwm ........ 13

Strategaeth Lleihau Carbon ........ 13

Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu ........ 13

Polisïau'r Gweithlu ........ 13

Adolygiadau ac Asesiadau Allanol ........ 14

Archwilio Cymru: Goruchwyliaeth Cyngor Sir y Fflint o Bartneriaethau ........ 14

Adolygiad Archwilio Cymru o Drawsnewid ........ 14

Asesiad Perfformiad Panel ........ 14

Sefydlu'r Rhaglen Drawsnewid Strategol ........ 16

Prosiectau Trawsnewid ........ 16

Diffinio Trawsnewid ........ 16

Nodi Prosiectau ........ 17

Y meini prawf ar gyfer derbyn prosiectau neu raglenni i'r rhaglen drawsnewid strategol ........ 17

Blaenoriaethu Prosiectau ........ 18

Themâu Trawsnewid ........ 18

Llywodraethu'r Rhaglen Drawsnewid Strategol ........ 19

Strwythur Llywodraethu ........ 19

DRAFT

Dadgwmpasu prosiectau ........ 20
Rolau Llywodraethu ........ 20
Risgiau ........ 20
Enillion Ariannol ........ 20
Swyddfa Rheoli'r Rhaglen Drawsnewid (Tîm) ........ 21
Cefnogaeth Ehangach i'r Rhaglen Drawsnewid ........ 21
Geirfa ........ 23

DRAFT

# Rhagair


Mae Cyngor Sir y Fflint yn ymfalchïo yn y gwasanaethau mae'n ei ddarparu i breswylwyr, cwsmeriaid, a chymunedau lleol.  Yn seiliedig ar werthoedd cymdeithasol cryf, mae'r Cyngor yn awyddus i adolygu a gwella'r gwasanaethau y mae'n eu darparu'n barhaus a gweithredu mewn modd effeithiol ac effeithlon mewn amgylchedd o heriau ariannol sylweddol a pharhaus.

Mae'r Cyngor yn awyddus i symud oddi wrth doriadau blynyddol i gyllidebau gwasanaeth. Mae'n awyddus i greu cynllun mwy hirdymor a fydd yn darparu arloesedd, gwelliannau, a newid sylweddol, gan sicrhau ei fod yn parhau i fod mewn sefyllfa gynaliadwy a fforddiadwy.

Mae Sir y Fflint yn Gyngor uchelgeisiol, a byddwn yn adeiladu ar ein hanes hir o ddarparu arbedion a newid i fodloni'r her hon, gan barhau â'n hymrwymiad i weithio gyda phreswylwyr a sefydliadau eraill i gyflawni hynny.

Byddwn yn ceisio cynyddu'r cyfleoedd sydd ynghlwm â thechnoleg a ffyrdd newydd o weithio wrth i ni symud tuag at ffordd fwy modern a diogel o gynnal a darparu gwasanaethau.

Bydd y gwerthoedd yr ydym wedi'u mabwysiadu dan ein hethos 'Un Cyngor', ynghyd â'n hymrwymiad i brofiad y cwsmer, a'n gweithlu ymroddedig, wrth wraidd ein cynlluniau trawsnewid.




| | |
|---|---|
| Llun o'r Prif Swyddog neu'r Prif Weithredwr | Llun o'r Aelod Cabinet neu'r Arweinydd |
| Enw a theitl swydd | Enw a theitl |

# Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir y Fflint yn awdurdod unedol yng ngogledd-ddwyrain Cymru sy'n cyflogi oddeutu 6,000 o bobl ac yn gwasanaethu poblogaeth o 155,000. Mae gan y Cyngor gyllideb refeniw blynyddol o oddeutu £422 miliwn yn 2026/27.

Mae'r Cyngor yn credu'n gryf mewn darparu gwasanaethau cyhoeddus ac yn darparu'r mwyafrif o'i swyddogaethau allweddol yn uniongyrchol, gan gynnwys tai, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau stryd a thrafnidiaeth.

Mae hanes cryf gan y Cyngor o wneud arbedion i helpu â mantoli'r cyfrifon. Mae wedi lleihau lefelau staffio, awtomeiddio swyddogaethau, a darparu gwasanaethau drwy wahanol ddulliau (e.e. Gwasanaethau Arlwyo a Glanhau NEWydd). Mae'n gweithredu sawl gwasanaeth cydweithredol/a rannir â Chynghorau eraill megis Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru.

Yn y cyfnod rhwng 2008/09 a 2025/26, llwyddodd y Cyngor i arbed dros £142 miliwn. Fodd bynnag, mae pwysau cyllidebol yn parhau ar draws y sector cyhoeddus, sy'n golygu y bydd angen i'r Cyngor barhau i arloesi wrth ddarparu ei wasanaethau. Ar yr un pryd, mae disgwyliadau'r cyhoedd mewn perthynas â darpariaeth gwasanaethau'n cynyddu, ac mae nifer y bobl sy'n gymwys i dderbyn cefnogaeth statudol gan y Cyngor, p'un a yw hynny yn sgil anghenion dysgu ychwanegol (ADY), digartrefedd, gwendid neu reswm arall, yn parhau i dyfu hefyd.

Er mwyn bodloni'r heriau sylweddol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, mae'r Cyngor yn datblygu ei gapasiti ac yn creu rhaglen drawsnewid. Bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar ddarparu newid a chyflymu darpariaeth, gan arddangos gwerth am arian a sicrhau arbedion effeithlonrwydd cynaliadwy. Mae'r Cyngor wedi nodi meysydd posibl ar gyfer ei raglen drawsnewid, ac mae maint a chwmpas y gwaith yn sylweddol.

Nid yw dod yn fwy effeithlon o reidrwydd yn golygu lleihau lefelau gwasanaethau i'n preswylwyr a'n cwsmeriaid. Bydd gweithredu newid a darparu gwasanaethau mewn modd sy'n bodloni anghenion ein preswylwyr yn well yn caniatáu i'r Cyngor wella boddhad cwsmeriaid yn ogystal â lleihau costau.

Mae'r Strategaeth Drawsnewid Strategol yn amlinellu'r cyd-destun strategol a'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y rhaglen drawsnewid strategol. Fe'i cefnogir gan Gynllun Trawsnewid Strategol, sy'n ddogfen fewnol â chynllun ar gyfer darparu newid.

DRAFT

# Crynodeb Gweithredol

I’w ddrafftio ar ôl cwblhau dogfen derfynol, yn dilyn ymgynghoriad

DRAFT

# Gweledigaeth ac Amcanion y Cyngor

Gweledigaeth Cyngor Sir y Fflint ar gyfer trawsnewid yw darparu newid a fydd yn galluogi'r Cyngor i ddarparu'r nodau a'r amcanion a amlinellir o fewn Cynllun y Cyngor.

Gan annog newid ac arloesedd, bydd y weledigaeth a'r amcanion trawsnewid yn sicrhau darpariaeth gwasanaethau y mae ar breswylwyr eu heisiau a'u hangen, p'un a ydynt yn "ofynnol" (dan y gyfraith) neu'n "ddewisol" (pan fo'r Cyngor yn dewis darparu'r gwasanaethau). Bydd yn helpu'r Cyngor i gydbwyso ei gyllideb drwy effeithlonrwydd, a thrwy wneud hynny, yn sicrhau cyn lleied â phosibl o gynnydd i dreth y Cyngor.

Bydd y Cyngor yn darparu gwasanaethau sydd:

- Wedi'u llunio i fodloni anghenion preswylwyr, cwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaeth
- Gwella profiad a boddhad cwsmeriaid
- Wedi'u darparu mewn modd sy'n helpu i reoli galw
- Wedi'u darparu'n effeithlon ac mewn modd sy'n costio llai a/neu'n osgoi costau diangen i'r Cyngor i'r dyfodol, ac
- Sy'n helpu'r Cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau i leihau ei ôl-troed carbon

Bydd hyn yn galluogi:

- Cyngor modern, effeithlon, arloesol a deinamig
- Cynaliadwyedd ariannol
- Dull "cwsmer yn gyntaf" drwy ddarparu gwasanaethau gwybodus o ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion preswylwyr.

Byddwn yn cyflawni hyn drwy:

- Fabwysiadu diwylliant perfformiad yn seiliedig ar ddata sy'n monitro ac yn adrodd ar ein perfformiad a'r gwerth a ddarperir mewn modd tryloyw.
- Gwneud defnydd gwell o'r wybodaeth a'r data sydd gennym ni eisoes i lywio cynlluniau a darpariaeth gwasanaeth i fodloni anghenion preswylwyr o fewn y sir.
- Defnyddio technoleg fel hwylusydd a galluogydd ar gyfer ein preswylwyr a'n gweithlu.
- Ymgysylltu'n well â'n preswylwyr a'n defnyddwyr gwasanaeth ynglŷn â'u hanghenion a'u dymuniadau.
- Dylunio a darparu gwasanaethau fel eu bod yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb.
- Creu'r newid diwylliannol hanfodol a chynyddu cynhyrchiant drwy weithlu ymroddedig sydd wedi'u hyfforddi a'u paratoi'n drylwyr.
- Ail-ddylunio gwasanaethau ac ail-drefnu prosesau mewnol, gan fabwysiadu dulliau clir, ac integreiddio systemau i wella effeithlonrwydd a lleihau gwastraff.
- Cydweithio effeithiol yn seiliedig ar werthoedd drwy weithio â Chynghorau eraill a rhannau gwahanol o'r sector cyhoeddus (megis y GIG, Heddlu Gogledd Cymru, ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru).
- Integreiddio'r nodau lles a'r pum ffordd o weithio dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym mhob lefel o brosesau gwneud penderfyniadau.
- Datblygu dulliau mwy masnachol o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor i gynyddu cyfleoedd i gynhyrchu incwm.
- Defnyddio adnoddau'r Cyngor yn effeithiol i ddarparu newid, gan flaenoriaethu'n effeithiol fel un Cyngor.

DRAFT

# Cyd-destun

## Cyd-destun Gwleidyddol

Mae gan Gyngor Sir y Fflint Gabinet, sy'n cynnwys Aelodau Etholedig (Cynghorwyr), lle gwneir penderfyniadau am faterion y Cyngor, gan gynnwys materion polisi sylweddol.

Mae un Aelod Cabinet yn gyfrifol am drawsnewid, gan ddarparu goruchwyliaeth glir ar lefel Cabinet.

Mae trefniadau clir i Gynghorwyr graffu ar feysydd trawsnewid posibl cyn eu datblygu ac asesu unrhyw newidiadau arfaethedig cyn eu gweithredu.

Mae Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n galluogi Cynghorwyr gweithredol i ddwyn y Cabinet i gyfrif a dylanwadu ar bolisi'r Cyngor.

## Heriau Gwasanaeth ac Ariannol

### Heriau Gwasanaeth

Mae'r Cyngor yn parhau i wynebu heriau sylweddol yn sgil galw cynyddol. Er enghraifft, mae heriau gofal cymdeithasol yn parhau i waethygu wrth i'r galw, cymhlethdod anghenion, heriau'r gweithlu a phwysau chwyddiannol gynyddu.

Mae gan Sir y Fflint boblogaeth sy'n heneiddio, rhwng 2023 a 2034, rhagwelir y bydd nifer y bobl 65 oed neu hŷn yn cynyddu o 20.82%, bydd nifer y bobl 80 oed neu hŷn yn cynyddu o 40.57% a bydd pobl sy'n byw â dementia yn cynyddu o 31.96%[1].

Mae'r galw am lety dros dro ar gyfer y rhai sy'n datgan eu bod yn ddigartref yn parhau i fod yn uchel ac yn risg ariannol sylweddol i'r Cyngor.

Mae lleoliadau y tu allan i'r sir yn parhau i fod yn risg barhaus o ran pwysau ariannol cynyddol.

### Heriau Ariannol

Daw oddeutu 70% o gyllid craidd y Cyngor gan Lywodraeth Cymru a 30% gan dreth y Cyngor. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa 10 mlynedd yn ôl, lle'r oedd 75% o gyllid yn dod gan Lywodraeth Cymru, a chyfran is, 25% yn dod gan dreth y Cyngor.

Mae Sir y Fflint wedi gwneud arbedion sylweddol drwy wariant refeniw dros y 10-15 mlynedd diwethaf. Dros yr un cyfnod, parhaodd y galw am wasanaethau i gynyddu, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau i'r oedolion a'r plant mwyaf diamddiffyn. Mae'r Cyngor yn wynebu nifer o'r un pwysau ariannol â'i breswylwyr. Ar yr un pryd, mae ffactorau galw cynyddol, megis effaith rhyfel, prinder yn y gadwyn gyflenwi, newid hinsawdd, chwyddiant, a'r argyfwng costau byw, wedi cynyddu'r prisiau y mae'r Cyngor yn eu talu i'w gyflenwyr.

---

[1]Cafwyd y wybodaeth hon o adroddiad "Cyllideb Cronfa'r Cyngor 2026/27 – Y Cam Clo Terfynol" i'r Cabinet, dyddiedig 24 Chwefror 2026



DRAFT

Ers 2008 mae Cyngor Sir y Fflint wedi gorfod torri £142 miliwn ar ei wariant. Mae wedi gwneud hyn drwy gyfuniad o bethau, gan gynnwys:

- Gwneud gostyngiadau sylweddol mewn swyddi uwch reolwyr a rheolwyr canol a swyddi gweinyddol a chlerigol.
- Gwneud gostyngiadau sylweddol yn holl gyllidebau gwasanaethau, gan gynnwys ysgolion.
- Gostwng nifer yr adeiladau y mae'r Cyngor yn berchen arnynt ac yn eu cynnal, gan wneud y defnydd gorau ohonynt trwy resymoli lle, cyflwyno arferion gweithio hybrid a rhannu gyda sefydliadu eraill.
- Adolygu ac ail-drafod contractau i arbed arian yn y modd rydym yn prynu nwyddau a gwasanaethau i sicrhau cyfraddau cystadleuol ac enillion gorau ar fuddsoddiad.
- Newid y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu, er enghraifft, drwy gwmnïau masnachu mewn perchnogaeth lwyr megis Arlwyo a Glanhau NEWydd Cyfyngedig, Llyfrgelloedd a Hamdden Sir y Fflint Cyfyngedig (sy'n masnachu fel Gwella), a gwasanaethau tai fforddiadwy NEW Homes.
- Gweithio gyda chymunedau lleol ble bu diddordeb mewn rhedeg asedau lleol e.e. Canolfan Hamdden Treffynnon, Cambrian Aquatics, Caffi Isa.
- Gweithio gydag ystod o fudd-ddeiliaid gan gynnwys landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i wneud y defnydd gorau o adnoddau a chyllid sydd ar gael i greu mynediad at gartrefi fforddiadwy addas - y math cywir o gartref, yn y lleoliad cywir, i'r bobl gywir.
- Cefnogi mentrau cymdeithasol, megis Double Click - menter gymdeithasol sy'n darparu gwasanaethau masnachol ynghyd â darparu buddion cymdeithasol a chymunedol.
- Integreiddio gwasanaethau â Chynghorau eraill yn y rhanbarth i rannu costau e.e. caffael neu brynu mewn swmp gyda Chynghorau eraill er mwyn cael bargeinion gwell e.e. offer cyfrifiadurol ar gyfer addysg.
- Adolygu ffioedd a thaliadau rhai gwasanaethau'n flynyddol.
- Cyflwyno casgliadau bin du bob tair wythnos - ynghyd â thrigolion yn gwella ôl-troed carbon y sir yr un pryd ag arbed arian.

Yn 2026/27, derbyniodd y Cyngor gynnydd mewn Cyllid Allanol Cyfun (yr arian mae'n ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru). Fodd bynnag, nid yw Sir y Fflint yn derbyn digon o gyllid ac mae'n parhau i wynebu heriau ariannol. Mae wedi bod ymhlith y ddau neu dri Chyngor sy'n derbyn y lleiaf o gyllid fesul pen o'r boblogaeth yn gyson. Pe bai'n derbyn y cyllid cyfartalog fesul pen o'r boblogaeth, byddai gan y Cyngor £27 miliwn yn fwy o arian i'w wario bob blwyddyn.

Er bod y Cyngor wedi gallu gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2026/27, nid oedd y Cyllid Allanol Cyfun ychwanegol gan Setliad Terfynol Llywodraeth Leol Cymru'n ddigonol i fodloni'r bwlch cyllidebol rhagamcanol ac effaith barhaus y galw cynyddol ar feysydd megis anghenion dysgu ychwanegol gofal cymdeithasol ac addysg. Mae'r rhagolygon ar gyfer y ddwy flynedd ariannol nesaf yn parhau i fod yn llwm gyda diffyg disgwyliedig gwerth miliynau.

Nid oes gan y Cyngor gronfeydd sylweddol wrth gefn. Cyllideb net y Cyngor ar gyfer 2025/26 oedd £397 miliwn ac felly mae cyfanswm yr arian wrth gefn sydd ar gael yn cyfateb i 2.92% o'r gyllideb. Mae ar y Cyngor angen diogelu ei gronfeydd wrth gefn presennol cyn belled ag y bo modd, gyda strategaeth wedi'i chynllunio i gynyddu gwytnwch dros amser.

DRAFT

Mae moratoriwm (stop dros dro) ar wariant ar waith ac wedi bod ers 2023/24. Fodd bynnag, argymhellir adolygiad o'r moratoriwm er mwyn gwneud y mwyaf o effeithiolrwydd.

Dros y ddegawd ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi symleiddio ei weithlu i'r fath raddau fel bod llawer o wasanaethau yn rhedeg ar gapasiti critigol bellach, a gallai unrhyw ostyngiadau pellach arwain at lefelau anniogel.

Bydd rhaglen drawsnewid y Cyngor yn elfen hanfodol o gefnogi'r Cyngor i ddathlu ei gynllun ariannol tymor canolig a'i sefyllfa gyllidebol gynaliadwy.

## Risgiau Corfforaethol

Mae gan y Cyngor gofrestr risgiau gorfforaethol, lle caiff risgiau lefel strategol a all gael effaith ar draws sefydliadau eu cofnodi a chamau lliniaru eu nodi. Caiff y rhain eu monitro a'u nodi yn unol â fframwaith rheoli risg y Cyngor.

Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, mae sawl risg yn berthnasol i, neu'n gysylltiedig â'r, rhaglen drawsnewid strategol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **RCF18 - Strategaeth Ariannol Tymor Canolig -** Effaith ar sefydlogrwydd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig o'r cynnydd yn y galw am wasanaeth, chwyddiant uchel a Setliadau Gostyngedig Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol
- **RSS54 - Cynaliadwyedd y Ddarpariaeth Gofal -** Digonolrwydd lleoliadau / sefydlogrwydd y farchnad yn arwain at ddarpariaeth gofal annigonol ac nad yw'n fforddiadwy
- **RCF01 - Cronfeydd Wrth Gefn -** Bydd diffyg arian wrth gefn yn effeithio ar wydnwch ariannol y Cyngor

Bydd y rhaglen drawsnewid, a rhai o'r prosiectau o fewn y rhaglen, yn cefnogi'r Cyngor i liniaru'r risgiau hyn dros y blynyddoedd nesaf.

DRAFT

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[2]

Yng Nghymru, mae deddfwriaeth sy'n ceisio gwella'r amgylchedd, economi, cymdeithas a diwylliant. Mae'n anelu at ddiogelu ansawdd cenedlaethau'r dyfodol yn ogystal â gwella lles ar gyfer y genhedlaeth bresennol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 [y Ddeddf] yn cynnwys saith o nodau lles ar gyfer Cymru. Y nodau hyn yw:

- Cymru lewyrchus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru iachach;
- Cymru sy'n fwy cyfartal;
- Cymru o gymunedau mwy cydlynus;
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; a
- Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

[2]Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2025), Llywodraeth Cymru: yr hanfodion. Ar gael ar-lein: https://www.gov.wales/well-being-future-generations-act-essentials-html#60668 [ymwelwyd â'r wefan ar 9 Mehefin 2026]

Fel corff cyhoeddus, mae'n rhaid i'r Cyngor gyflawni ei ddyletswydd lles yn llawn, gan ddatblygu mewn modd cynaliadwy. Mae hynny'n golygu'r broses o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n ceisio cyrraedd y nodau lles.

Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n golygu bod yn rhaid i'r Cyngor, fel corff cyhoeddus, weithredu mewn modd sy'n sicrhau ei fod yn bodloni anghenion cyfredol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain. Y pum peth y mae ar y Cyngor angen ei arddangos i brofi ei fod wedi defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yw:

- Cydweithio
- Integreiddio
- Cyfranogi
- Hirdymor
- Atal

I weithredu'r nodau hyn yn effeithiol, mae'r pum ffordd o weithio sydd wedi'u nodi yn y Ddeddf yn ategu at y strategaeth:

Cydweithio: Byddwn yn helpu i faethu cydweithio ar draws y sector, yn seiliedig ar arbenigedd ystod eang o sefydliadau eraill - gan gynnwys busnesau lleol, grwpiau cymunedol, a chyrff cyhoeddus cyfagos - i ddatblygu datrysiadau holistaidd.

Integreiddio: Bydd adrannau'n cydweithio'n well drwy waredu rhwystrau cyfathrebu. Bydd ein dull yn sicrhau fod ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd yn cael eu hintegreiddio i bob polisi a chynllun gwasanaeth.

Cyfranogiad: Mae sicrhau ymgysylltiad â'r gymuned yn hanfodol ar gyfer trawsnewid. Bydd trigolion, budd-ddeiliaid a staff yn rhan allweddol o brosesau cynllunio, gweithredu a gwerthuso, gan sicrhau fod penderfyniadau'n cael eu cynhyrchu ar y cyd ac yn berthnasol i'r ardal leol.

Meddwl yn yr hirdymor: Caiff unrhyw brosesau penderfynu, cynllunio strategol, cyllidebu ac ail-ddylunio gwasanaethau eu cynnal gan ystyried yr effaith hirdymor ar genedlaethau'r dyfodol.

Atal: Rhoir pwyslais ar fesurau ataliol a strategaethau ymyrraeth gynnar. Yn hytrach na mynd i'r afael â phroblemau wrth iddynt godi, mae ein strategaeth yn canolbwyntio ar atal problemau rhag datblygu neu waethygu.

Dylai gweithio'n unol â'r ddeddfwriaeth helpu'r Cyngor i wella gwasanaethau a/neu leihau costau, ond bydd hefyd yn sicrhau fod y Cyngor yn ystyried holl effeithiau posibl ei weithredoedd.

## Cynlluniau a Strategaethau Cysylltiedig

### Cynllun y Cyngor

Bydd Cynllun cyfredol y Cyngor yn weithredol rhwng 2025 a 2030. Mae'n amlinellu gwerthoedd craidd yr ethos 'Un Cyngor' a thair blaenoriaeth pennaf y Cyngor: Pobl, Lleoedd a Ffyniant. Yn ogystal â hynny, mae'r Cyngor wedi gosod tri amcan lles, a sawl amcan i'r Cyngor, a fydd yn

helpu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau a'i amcanion lles.   Ceir crynodeb o'r rhain yn y tabl isod.

Tabl 1: Cynllun y Cyngor : blaenoriaethau, amcanion lles ac amcanion y Cyngor ar gyfer 2025-2030

| Amcan Lles | Blaenoriaeth Cynllun y Cyngor | Amcanion y Cyngor |
|---|---|---|
| Mae preswylwyr Sir y Fflint yn teimlo'n hapus, diogel ac iach | Pobl | Lleihau effaith tlodi ar gyfer pobl sy'n byw yn Sir y Fflint |
| | | Galluogi dysgu llwyddiannus a chyrhaeddiad |
| Mae Sir y Fflint yn lleoliad mae pobl eisiau byw, ymweld a gweithio ynddo | Llefydd | Galluogi dewisiadau teithio llesol a chynaliadwy ar gyfer teithiau dyddiol pobl |
| | | Cadw ein rhwydwaith ffyrdd mewn cyflwr da a diogel |
| | | Cefnogi pobl a busnesau i addasu i'r newid yn yr hinsawdd a digwyddiadau tywydd eithafol |
| | | Adfywio canol trefi a mannau gwyrdd i gefnogi lles lleol a chyflogaeth |
| | | Cefnogi ein cymunedau i wella eu hardaloedd lleol a chreu amgylchedd glanach, gwyrddach ac iachach |
| | | Creu amgylcheddau dysgu sy'n ysbrydoli, arloesol a chynhwysol |
| | | Parhau â'n taith i ddod yn Gyngor di-garbon net gan ddylanwadu ar ein cymunedau i weithredu ar newid hinsawdd |
| Cymunedau a busnesau'n ffynnu yn Sir y Fflint | Ffyniant | Denu buddsoddiad busnes i hyrwyddo cynaliadwyedd a thwf swyddi |
| | | Datblygu buddion economi ymwelwyr |
| | | Archwilio ffyrdd o gynhyrchu incwm newydd ac ychwanegol |
| | | Cefnogi pobl i gael mynediad at gyfleoedd i weithio a datblygu |
| | | Cyngor a Reolir yn Dda |

Bydd y Rhaglen Drawsnewid Strategol yn cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei amcanion mewn perthynas â chynhyrchu incwm newydd ac ychwanegol yn bennaf, a sicrhau fod y Cyngor yn cael ei reoli'n dda.  Fodd bynnag, ar lefel trawsnewid prosiectau, gellid cefnogi unrhyw un o amcanion y Cyngor.  Yn wir, bydd yn rhaid i unrhyw achos busnes ar gyfer prosiect trawsnewid amlinellu pa flaenoriaeth(au) yng Nghynllun y Cyngor a gaiff eu bodloni trwy gwblhau'r prosiect i sicrhau fod gwaith trawsnewid wedi'i alinio â chyflawni blaenoriaethau'r Cyngor.

## Cynllun/Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yw strategaeth y Cyngor sy'n rhagweld yr adnoddau ariannol a fydd ar gael i'r Cyngor am gyfnod penodol, ynghyd â chynllun ar gyfer sut i fanteisio i'r eithaf ar yr adnodd hwnnw er mwyn bodloni dyletswyddau, rhwymedigaethau a blaenoriaethau'r Cyngor.

Bydd y rhaglen drawsnewid strategol yn ffrwd waith allweddol ar gyfer datblygu ystod o fentrau gwasanaeth a newid gwaith dros gyfnod estynedig er mwyn alinio â Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor, sy'n seiliedig ar raglen dreigl pum mlynedd.

Ar gyfer 2026/27, mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys £2 filiwn i'w gynhyrchu o brosiectau presennol yn y rhaglen drawsnewid gyda meysydd newydd yn cael eu hystyried fel rhan o'r rhaglen.

## Strategaeth Ddigidol

Yn 2017, mabwysiadodd y Cyngor "Sir y Fflint Ddigidol" a strategaeth bedair blynedd. Diweddarwyd Sir y Fflint Ddigidol, gyda Strategaeth Ddigidol newydd ar gyfer 2021-2026. Mae hyn yn cydnabod y gorgyffyrddiad â Strategaeth Ddigidol Cymru a phum egwyddor Datganiad Digidol Lleol Llywodraeth y DU, y mae Sir y Fflint wedi ei fabwysiadu fel dull gweithio a ffefrir i ddarparu ei uchelgeisiau a'i brosiectau.

Mae'r Strategaeth Ddigidol, "Sir y Fflint Ddigidol" yn cynnwys wyth prif thema:

- Cwsmer Digidol
- Gweithlu Digidol
- Busnes Digidol a Chysylltedd
- Partneriaethau Digidol
- Dysgu Digidol a Diwylliant
- Cynhwysiant Digidol
- Rheoli Gwybodaeth a Data
- Darpariaeth Ddigidol

Er y disgwylir i'r Strategaeth gael ei hadolygu yn ystod 2026, megis trawsnewid digidol, mae Sir y Fflint Ddigidol yn ymestyn ar draws y Cyngor, a bydd yn dylanwadu ar unrhyw gynlluniau neu strategaethau corfforaethol. Yn eu tro, bydd cynlluniau, strategaethau a blaenoriaethau eraill y Cyngor yn dylanwadu ar y Strategaeth Ddigidol.

Mae Bwrdd Strategaeth Ddigidol sy'n gyfrifol am oruchwylio darpariaeth y strategaeth, yn ogystal â monitro a gwerthuso cynnydd a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau mewn perthynas ag adnoddau a blaenoriaethau.

O ystyried y synergedd rhwng y Strategaeth Ddigidol a'r Rhaglen Drawsnewid Strategol, mae'r Cyngor wedi ceisio rhesymoli prosesau a gweithdrefnau cyn belled ag y bo modd rhwng y ddau. Dylai hyn sicrhau goruchwyliaeth strategol, gan leihau unrhyw orgyffwrdd neu ddyblygu, a'n galluogi i wella prosesau monitro a defnyddio galw ac adnoddau.

## Strategaeth Gomisiynu

Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Strategaeth Gomisiynu.

Mae'r strategaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n comisiynu gwasanaethau asesu'r dull mwyaf cost effeithlon ar gyfer darpariaeth. Mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ystyried cydweithio gyda chynghorau/cyrff cyhoeddus eraill a thrawsnewid gwasanaethau yn hytrach na cheisio contractau allanol.

Nod cyffredinol y gweithgarwch comisiynu yw sicrhau fod gwasanaethau'n bodloni anghenion trigolion/defnyddwyr gwasanaeth ac yn darparu'r gwerth gorau am arian cyn belled ag y bo modd. Bydd cyflawni'r nodau hynny'n arwain at wella perfformiad, gostwng costau a rhagor o dryloywder o ran adrodd ar berfformiad. Mae'r rhain i gyd yn ategu at nodau'r strategaeth drawsnewid ac yn helpu i ddarparu ei hamcanion.



DRAFT

## Polisi Cynhyrchu Incwm

Mae'r Cyngor yn darparu ystod o wasanaethau i drigolion, i'r gymuned ac i ymwelwyr y gall godi ffi neu dâl amdanynt a chynhyrchu incwm o ganlyniad.

Prif nod y Cyngor yw cynyddu incwm lle bynnag y bo'n bosibl er mwyn cyfrannu tuag at ddarparu gwasanaethau rheng flaen allweddol yn barhaus. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer gwasanaethau dewisol, lle mae parhad a chynaliadwyedd gwasanaethau'n hanfodol.

Mae'r polisi hwn yn amlinellu rhesymeg y Cyngor dros ffioedd a thaliadau. Mae'n sefydlu'r broses lle caiff ffioedd a thaliadau eu gosod a'u hadolygu, yn amlinellu'r egwyddorion allweddol y dylid eu defnyddio i'w gosod, ac yn amlinellu sut mae codi tâl am wasanaethau'n cefnogi'r Cyngor i ddarparu ei flaenoriaethau corfforaethol.

Bydd ffioedd a thaliadau, ynghyd â dulliau masnachol ehangach, yn gysylltiedig ag ymdrechion y Cyngor i drawsnewid, ac mae'n debygol iawn y bydd prosiectau trawsnewid masnachol ar y rhaglen drawsnewid strategol.

## Strategaeth Lleihau Carbon

[bydd y trosolwg wedi'i gynnwys ar gyfer y drafft terfynol]

## Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu

Mae'r Cyngor wedi lansio "Ymgysylltu Heddiw i Drawsnewid Yfory" sy'n nodi dull y Cyngor ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu.

Mae'n bwysig bod y Cyngor yn ennill barn pobl i helpu i siapio cynlluniau'r Cyngor a sut y dylid darparu gwasanaethau'r Cyngor. Bydd yn bwysig sicrhau bod y Cyngor yn ymgynghori ac ymgysylltu â grwpiau gwahanol ar draws Sir y Fflint, gan gynnwys ar brosiectau dan y rhaglen drawsnewid, yn arbennig os ydynt yn cael effaith ar y gwasanaethau y maent yn eu derbyn, neu'r rhai sydd ar gael.

Mae hefyd yn ddichonadwy y bydd gan bobl yn Sir y Fflint syniadau am sut gallai'r Cyngor drawsnewid i ddarparu arbedion neu welliannau gwasanaeth, ac mae'n bosibl mai'r syniadau hyn fydd y sail ar gyfer prosiectau trawsnewid newydd. Gall deialog gwell rhwng y Cyngor, ei breswylwyr, a defnyddwyr gwasanaeth, helpu i ganfod y ffyrdd gwahanol hynny o weithio.

Wrth ddarparu ei ymrwymiadau dan y Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu, bydd y Cyngor hefyd yn darparu amcanion y strategaeth drawsnewid.

Bydd yn rhaid i'r rhaglen drawsnewid ystyried y dulliau a ddefnyddir i ymgynghori ac ymgysylltu â phobl, yn unol â Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu'r Cyngor, fel ffordd o geisio syniadau ar gyfer gwelliant yn ogystal â chynnwys preswylwyr, cwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaeth wrth ddatblygu unrhyw newidiadau trawsnewidiol.

## Polisïau'r Gweithlu

Mae sawl polisi gweithlu perthnasol. Yn benodol, yr angen i gadw a recriwtio staff, a/neu hyfforddi a buddsoddi mewn pobl sydd â'r sgiliau angenrheidiol i alluogi'r Cyngor i drawsnewid a darparu mewn byd mwy digidol, lle mae gan gwsmeriaid ddisgwyliadau uwch o ran darparu a chael mynediad at wasanaethau.

DRAFT

# Adolygiadau ac Asesiadau Allanol

## Archwilio Cymru: Goruchwyliaeth Cyngor Sir y Fflint o Bartneriaethau

Yn dilyn adolygiad eithaf diweddar Archwilio Cymru o oruchwyliaeth y Cyngor o bartneriaethau, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu canllawiau a pholisïau corfforaethol ar bartneriaethau.

Gan fod y Cyngor eisoes yn cynnal gwasanaethau a rennir ac yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddarparu gwasanaethau a swyddogaethau, mae'n amlwg y bydd cyfle ar gyfer rhagor o gydweithio trawsnewidiol. O ganlyniad, bydd yn rhaid sicrhau rhyw elfen o aliniad rhwng y rhaglen a'r polisi trawsnewid ar gyfer gwaith partneriaeth.

## Adolygiad Archwilio Cymru o Drawsnewid

Cwblhawyd adolygiad o drawsnewid o fewn y Cyngor yn 2025. Nododd yr adolygiad fod dull y Cyngor mewn perthynas â thrawsnewid yn un tymor byr, ac nad oedd cyflymder y gweithrediad yn darparu sicrwydd y bydd y rhaglen yn galluogi'r Cyngor i ymateb yn gynaliadwy i'r pwysau cyllidebol y mae'n eu hwynebu.

Roedd canfyddiadau ac argymhellion Archwilio Cymru fel a ganlyn:

1) Mae'r Cyngor wedi datblygu tîm trawsnewid canolog i gefnogi ei waith trawsnewid, ond dim ond am flwyddyn y cymeradwywyd y cyllid hwn, sydd, yn naturiol, yn troi'r sylw at y tymor byr.
2) Nid oes gan y Cyngor strategaeth drawsnewid hirdymor ag adnoddau llawn wedi'i mabwysiadu. Bydd peidio â chael strategaeth drawsnewid glir sy'n nodi'r gweithgareddau a'r adnoddau sy'n ofynnol i drawsnewid pethau'n gyflym ac yn sylweddol ac sy'n caniatáu i'r Cyngor osod cyllidebau cytbwys, yn arwain at berygl o beidio â chyflawni synergedd â phrosesau gwneud penderfyniadau.
3) Mae'r Cyngor wedi nodi prosiectau posibl a allai ddarparu newid trawsffurfiol. Mae'r rhain yn cynnwys ystod o feysydd gwasanaeth ac â'r potensial i wireddu effeithlonrwydd tymor byr/canolig o ran darpariaeth gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw'r prosiectau hyn wedi cael eu gwerthuso na'u gweithredu.

Nododd Archwilio Cymru, os na fyddai'r Cyngor yn rhoi strategaeth drawsnewid ar waith a fyddai'n ei alluogi i ymateb i bwysau ariannol, a hynny ar unwaith ac ar raddfa fawr, byddai perygl o barhau i ddibynnu ar broses flynyddol o nodi arbedion, a fyddai'n cael effaith ar ei allu i osod cyllideb gytbwys strategol.

Ers adolygiad Archwilio Cymru, mae adnoddau'r tîm trawsnewid wedi cynyddu'n sylweddol. Mae hyn y galluogi'r Cyngor i archwilio a datblygu nifer uchel o fentrau gwasanaeth a phrosiectau newydd dros gyfnod estynedig i alinio â Chynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor. Mae hyn yn symud i ffwrdd o'r toriadau blynyddol anghynaladwy i wasanaethau, tuag at ddull mwy hirdymor a masnachol sy'n seiliedig ar fusnes, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol a pharhad gwasanaeth.

## Asesiad Perfformiad Panel

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gwblhau Asesiad Perfformiad Panel unwaith ym mhob cylch etholiadol. Cwblhawyd yr Asesiad Perfformiad Panel ar gyfer Sir y Fflint ym mis Tachwedd 2025.

Roedd yr Asesiad Perfformiad Panel yn cydnabod y risgiau sylweddol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu mewn perthynas â'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig a'r angen am wybodaeth strategol fewnol ar frys.

Amlinellodd yr Asesiad Perfformiad Panel hefyd yr angen i'r Cyngor gael Cynllun Trawsnewid gydag adnoddau cywir ac sydd wedi'i gwmpasu a'i dargedu'n llawn, gydag atebolrwydd clir mewn rhaglen waith a gytunwyd arni'n gorfforaethol.  Dylid cynnwys rhoi sylw i fasnacheiddio, ataliaeth a'r strategaeth ddigidol, gan alinio â'r cynllun ariannol tymor canolig.

O ran arweinyddiaeth, mae'r Asesiad Perfformiad Panel yn nodi er bod arweinydd gwleidyddol ar gyfer trawsnewid yn ei le, cydnabyddir yr angen am gapasiti uwch reoli ychwanegol, ac er mwyn sicrhau darpariaeth effeithiol, dylid penodi uwch arweinydd rheoli dynodedig.  Mae'r Cyngor yn ceisio datblygu a recriwtio i rôl uwch swyddog a fydd yn gweithredu fel yr arweinydd trawsnewid ar lefel swyddog.

DRAFT

## Sefydlu'r Rhaglen Drawsnewid Strategol

Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i osod cyllideb gytbwys a chyfreithiol bob blwyddyn. Mae'r cylch blynyddol o osod cyllideb yn arwain at ganolbwyntio ar nodi arbedion y gellir eu gwneud o fewn amserlen dynn. Mae ar y Cyngor angen symud i ffwrdd o'r amgylchedd pwysau uchel aneffeithiol ac anghynaladwy hwn, sy'n ei atal rhag ystyried arbedion posibl na fyddai modd eu darparu dan y cylch cyllidebu blynyddol arferol. Mae'n debygol y byddai arbedion o'r fath yn cynnwys prosiectau ar raddfa fwy, megis dull darparu newydd neu ail-ddylunio prosesau gweithio mewnol, ac fe allant fod yn sylweddol ac yn drawsnewidiol eu natur.

Gyda heriau ariannol sylweddol yn parhau, mae'r Cyngor yn datblygu ei gapasiti ar gyfer trawsnewid. Mae'r Cyngor wedi nodi meysydd posibl ar gyfer gwaith trawsnewid, ac mae maint a chwmpas y gwaith yn sylweddol.

Bydd y Rhaglen Drawsnewid Strategol yn dod yn gynyddol bwysig i gefnogi rhaglen o newid a thrawsnewid gwasanaethau wrth symud ymlaen. Bydd y Cyngor yn defnyddio'r ffrwd waith hon ar gyfer datblygu ystod o fentrau gwasanaeth a newid gwaith dros gyfnod estynedig er mwyn alinio â'i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, sy'n seiliedig ar raglen dreigl bum mlynedd.

Er y cyfeirir ati fel y Rhaglen Drawsnewid Strategol, Portffolio Trawsnewid ydi hi mewn gwirionedd, sy'n cynnwys prosiectau trawsnewid annibynnol, rhaglenni gwaith trawsnewidiol, a phrosiectau neu fentrau newid eraill. Mae'r Rhaglen Drawsnewid Strategol yn gysylltiedig â phroses gyllidebol y Cyngor, ac wedi'i halinio â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, ac yn cefnogi darpariaeth blaenoriaethau a chynllun strategol y Cyngor.

### Prosiectau Trawsnewid

Nodwyd y blaenoriaethau allweddol canlynol ar gyfer y rhaglen drawsnewid:

- Cefnogi cynaliadwyedd ariannol dros gynllun treigl pum mlynedd - drwy leihau gwariant a/neu gynhyrchu incwm newydd neu ychwanegol
- Moderneiddio a gwella - defnyddio technoleg i ddarparu profiadau gwell i aelodau'r gweithlu, preswylwyr a chwsmeriaid
- Gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth ac ail-ddylunio prosesau gweithredu'n barhaus - darparu rhagor o wasanaethau effeithiol ac effeithlon, lleihau dyblygu, symleiddio prosesau, cryfhau cadernid gwasanaethau, ac ati
- Rheoli galw a chynyddu capasiti'r gweithlu - rheoli'r galw ar wasanaethau a rhyddhau capasiti ac amser swyddogion
- Gwella'r siwrnai i gwsmeriaid - gwella profiad a boddhad cwsmeriaid, gan roi anghenion cwsmeriaid wrth wraidd gwaith trawsnewid

### Diffinio Trawsnewid

Prosiectau sylweddol a all ymestyn ymhellach nag un flwyddyn ariannol yw prosiectau (neu raglenni) trawsnewid i'r Cyngor. Eu nod yw darparu newid hanfodol a/neu sylweddol.

Gall adolygiadau trawsnewid gynhyrchu buddion drwy:



DRAFT

- Brosesau corfforaethol mewnol sy'n cael effaith ar y Cyngor cyfan, megis sut rydym yn cynhyrchu nwyddau, gwaith a gwasanaethau
- Ffyrdd trawsbynciol o ddarparu gwasanaethau.  Er enghraifft, sut mae'r Cyngor yn rheoli oriau ychwanegol (goramser a gweithio y tu allan i oriau swyddfa)
- Newidiadau hanfodol i'r dull darparu.  Er enghraifft, technoleg awtomatig neu gynorthwyol

Bydd prosiectau trawsnewid yn darparu un neu fwy o'r buddion canlynol:
- Arbedion ariannol - mewn arian parod a all alluogi'r Cyngor i wneud gostyngiadau i'r gyllideb
- Osgoi costau - bydd hyn yn helpu i osgoi costau i'r Cyngor yn y dyfodol
- Incwm - ffrydiau neu ddulliau incwm newydd i gynhyrchu incwm ychwanegol
- Gwelliannau/effeithlonrwydd prosesau a gwasanaethau - gwelliannau sy'n helpu i reoli galw neu ryddhau capasiti, neu ryddhau gwasanaethau a/neu fuddion eraill i gwsmeriaid
- Newid dull darparu neu weithredu - a all helpu'r Cyngor i wneud arbedion effeithlonrwydd neu arbedion maint neu wella gwytnwch trwy wneud pethau'n wahanol

## Nodi Prosiectau

Ceir awgrymiadau ar gyfer prosiectau gan sawl ffynhonnell, gan gynnwys:
- Gweithwyr y Cyngor
- Aelodau Etholedig
- Preswylwyr Sir y Fflint
- Sefydliadau eraill
- Ymwelwyr

Mae'r Cyngor yn ystyried datblygu dull i gasglu awgrymiadau ar gyfer trawsnewid ac adborth ar y gwaith trawsnewid a gwblhawyd.

## Y meini prawf ar gyfer derbyn prosiectau neu raglenni i'r rhaglen drawsnewid strategol

Y meini prawf a ddefnyddir i benderfynu p'un a gaiff prosiect (neu raglen) ei gynnwys ar y Rhaglen Drawsnewid Strategol yw:

Bodloni un nwy fwy o'r blaenoriaethau trawsnewid

A

Tystiolaeth o wireddu buddion mesuradwy

A

Cymeradwyaeth y Cabinet

DRAFT

Cyn cael eu hystyried yn ffurfiol gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a chael eu cymeradwyo ar gyfer eu cynnwys ar y rhaglen drawsnewid strategol gan y Cabinet, bydd y prosiect yn destun proses gwmpasu, gan gwblhau achos busnes. Caiff yr achos busnes ei ystyried gan fwrdd galw prosiectau a rhaglenni, sy'n cynnwys swyddogion ac Aelodau Etholedig. Bydd y broses hon yn gwirio p'un a yw'r prosiect yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y rhaglen drawsnewid, a ph'un a yw'n deilwng i gael ei gyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth.

## Blaenoriaethu Prosiectau

Caiff prosiectau eu blaenoriaethu gan ystyried y canlynol:

- Cymhlethdod newid
- Y gofynion o ran adnoddau a chapasiti
- Buddion a ragwelir a hyder o ran yr enillion a ddisgwylir
- Pa mor gyflym y gellid gwireddu'r buddion

## Themâu Trawsnewid

Caiff prosiectau a dderbynnir ar y rhaglen drawsnewid eu grwpio dan un o'r themâu trawsnewid canlynol.

Tabl 2: Themâu Trawsnewid

| |
|---|
| **Systemau a Phrosesau** |
| **Trawsnewid Digidol** |
| **Dull Gweithredu Gorau** |
| **Dull Masnachol** |
| **Trawsnewid Asedau** |
| **Dull a Chontractau Darparu** |

DRAFT

# Llywodraethu'r Rhaglen Drawsnewid Strategol

Ymdrinnir â gwelliannau lefel gwasanaeth neu gynyddrannol o ddydd i ddydd yn gyffredinol ac fel rhan o weithgarwch busnes arferol y Cyngor. Byddai hyn yn cynnwys ymdrechion y Cyngor i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ynghlwm â gwybodaeth a thechnoleg ddigidol i sicrhau fod y Cyngor yn darparu gwasanaeth modern, diogel ac effeithlon i'r cyhoedd dan Weledigaeth Sir y Fflint Ddigidol.

Fel prosiectau mwy, sy'n aml yn fwy cymhleth ac â risg uwch, mae prosiectau a rhaglenni trawsnewid yn ymofyn dull llywodraethu a goruchwyliaeth ffurfiol y tu hwnt i'r broses neu'r dulliau gweithio arferol.

## Strwythur Llywodraethu

Mae'r strwythur llywodraethu a'r broses ar gyfer rheoli prosiectau a rhaglenni trawsnewid fel a ganlyn:

- Bydd yn rhaid i Dîm Rheoli'r Rhaglen Drawsnewid, noddwr y prosiect ac arweinydd y prosiect, ddrafftio achos busnes lefel uchel ar gyfer y prosiect. Bydd y Tîm o Brif Swyddogion yn ei ystyried i ddechrau.
- Unwaith y bydd y Tîm o Brif Swyddogion wedi ei adolygu, ystyrir yr achos busnes gan Fwrdd Galw Prosiectau a Rhaglenni mewnol, lle caiff ei wirio a'i herio. Bydd prosiectau trawsnewid sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer eu datblygu'n mynd ymlaen i gael eu hadolygu a'u cymeradwyo'n ffurfiol ar gyfer y rhaglen.
- Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol (adolygu) a'r Cabinet (cymeradwyo) sy'n ymgymryd â'r broses o adolygu a chymeradwyo'r rhaglen drawsnewid.
- Darperir prosiectau gan dîm prosiect, sy'n cynnwys swyddogion, ac fe'i cefnogir gan Dîm Rheoli'r Rhaglen Drawsnewid.
- Sefydlir byrddau prosiect, a gaiff eu cadeirio gan y Noddwr Prosiect. Bydd byrddau prosiect yn monitro cynnydd, helpu gydag adnoddau a goresgyn rhwystrau, yn ogystal â darparu llwybr ar gyfer uwchgyfeirio risgiau a/neu broblemau.
- Defnyddir proses bresennol y Cyngor ar gyfer cymeradwyo, a gall y Prif Swyddog priodol wneud hyn hefyd (fel penderfyniad dirprwyedig) neu gellir cyfeirio'r prosiect at y Cabinet (fel sy'n ofynnol gan y cynllun dirprwyo). Dylid ymgynghori â'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu priodol cyn i'r Cabinet wneud unrhyw benderfyniad ynglŷn â newidiadau i wasanaethau neu strategaethau/polisïau.
- Bydd angen adroddiadau cynnydd, ac mae'r Cyngor wedi sefydlu'r llinellau adrodd llywodraethu hanfodol, a fydd yn cynnwys adroddiadau i uwch swyddogion ac Aelodau Etholedig.

Bydd yn rhaid cyflwyno adroddiad i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r Cabinet ar gyfer un neu fwy o'r dibenion canlynol:

- Ceisio awdurdod i wneud newidiadau i safonau gwasanaeth neu sefydlu gwasanaethau - caiff adroddiadau o'r fath eu hystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol, a fydd yn gwneud argymhellion/sylwadau i'r Cabinet, a fydd yn ystyried y rhain wrth benderfynu p'un a ddylid cymeradwyo'r newid.
- Adrodd ar gynnydd prosiectau unigol i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu (goruchwyliaeth).

- Adrodd ar gynnydd y rhaglen drawsnewid gyfan o ran cyrraedd y targedau a nodir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (gwirio cynnydd ac atebolrwydd).

## Dadgwmpasu prosiectau

Gellir tynnu prosiectau oddi ar y rhaglen (cyfeirir at y broses hon fel dadgwmpasu) ar unrhyw adeg yn y broses.

Gellir dadgwmpasu prosiectau am sawl rheswm.  Er enghraifft, pan fo prosesau cwmpasu prosiectau pellach yn nodi nad yw'r prosiect yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y rhaglen drawsnewid mwyach neu pan fo datganiad dull yn nodi na fydd y prosiect yn darparu'r buddion a ragwelwyd, sy'n golygu nad yw'n ymarferol i fwrw ymlaen.

## Rolau Llywodraethu

Mae rolau pobl neu grwpiau penodol o fewn y rhaglen drawsnewid yn cynnwys:

- Bydd Aelodau Etholedig yn cymeradwyo'r rhaglen, yn derbyn diweddariadau yn ei chylch, ac yn adolygu a/neu'n cymeradwyo prosiectau newydd ar y rhaglen.  Bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a'r Cabinet yn gweithredu fel y fforwm adolygu, a'r Cabinet yw'r fforwm cymeradwyo.
- Bydd Noddwr y Portffolio/Rhaglen Drawsnewid yn y Tîm Prif Swyddogion yn gyfrifol am y portffolio/rhaglen drawsnewid, gan hyrwyddo'r rhaglen a bod yn atebol am ei lwyddiant.
- Dynodir Noddwyr Prosiect ar gyfer pob prosiect trawsnewid a fydd yn aelodau o'r Tîm Prif Swyddogion.  Byddant yn atebol am ddarparu'r prosiect.
- Bydd gan bob prosiect Arweinydd Prosiect.  Yn y mwyafrif o achosion, bydd yr Arweinydd yn aelod o Dîm Rheoli'r Rhaglen Drawsnewid, ond nid bob tro.   Maent yn gyfrifol am ddatblygu'r prosiect, hynny ydi, rheoli a darparu'r prosiect.
- Bydd gan bob prosiect Arweinydd Gwasanaeth, a fydd yn darparu sgiliau a gwybodaeth dechnegol ar gyfer y prosiect.
- Bydd gan bob prosiect Arweinydd Cyllid dynodedig hefyd, a fydd yn sicrhau fod datganiadau dull (a fydd yn nodi costau ac enillion disgwyliedig y prosiect) yn cael eu cwblhau a'u dilysu.
- Byrddau Prosiect fydd y fforwm cychwynnol ar gyfer cymeradwyo prosiectau, gwneud penderfyniadau, a materion uwchgyfeirio.
- Bydd Tîm Rheoli'r Rhaglen Drawsnewid yn sicrhau cydymffurfiaeth â threfniadau llywodraethu, goruchwylio prosiectau a blaenoriaethu adnoddau ar gyfer y rhaglen drawsnewid, a darparu adroddiadau lefel strategol, ymhlith pethau eraill.

## Risgiau

Mae'r rhaglen drawsnewid yn defnyddio system a fframwaith rheoli risg y Cyngor.

Caiff risgiau a gaiff eu nodi eu cofnodi ynghyd â chamau lliniaru i reoli'r risg yn effeithiol.

## Enillion Ariannol

Mae trefniadau adnoddau a llywodraethu'r rhaglen allweddol hon yn parhau i gael eu datblygu, ac mae rhagor o brosiectau'n cael eu nodi a fydd yn lleihau costau/cynhyrchu incwm ychwanegol ar gyfer y Cyngor.  Felly, ar gyfer 2026/27, pennwyd y byddai'n rhesymol cynnwys swm o £2 filiwn, a fodlonir yn ystod y flwyddyn wrth i brosiectau penodol gael eu datblygu ac

DRAFT

wrth i ostyngiadau ariannol gael eu cadarnhau.  Bodlonir y targed drwy gyfuniad o brosiectau trawsnewid presennol a llunnir meysydd newydd ar hyn o bryd â chyflenwr allanol.

Caiff arbedion a gyflawnir drwy brosiectau'r Rhaglen Drawsnewid Strategol eu halinio â'r rhaglen (a'u dychwelyd yn gorfforaethol) yn hytrach na chael eu cadw gan bortffolios.

## Swyddfa Rheoli'r Rhaglen Drawsnewid (Tîm)

Mae rôl Uwch Swyddog yn cael ei datblygu [caiff gwybodaeth bellach ei chynnwys unwaith y bydd ar gael]

Mae Rheolwr y Rhaglen Trawsnewid Digidol yn arwain datblygiad y rhaglen drawsnewid ar y cyd, gan sicrhau bod pob prosiect a chanlyniad yn y rhaglen yn cael eu darparu'n llwyddiannus, yn brydlon ac o fewn y gyllideb.  Yn ogystal â rheoli prosiectau penodol sy'n ffurfio rhan o'r rhaglen drawsnewid.

Mae'r Swyddog Gweithredol Strategol yn arwain datblygiad y rhaglen drawsnewid strategol ar y cyd, gan gydlynu'r strategaeth newid a chwmpasu a datblygu prosiectau newid sefydliadol penodol.  Yn ogystal â hynny, mae deiliad y swydd hon yn rheoli rhaglenni newydd/corfforaethol dynodedig.

Mae Swyddogion Prosiectau Trawsnewid Digidol yn darparu cefnogaeth i brosiectau trawsnewid o fewn y rhaglen drawsnewid, gan ddefnyddio dull cyson ar gyfer rheoli prosiectau.  Mae'r rolau hyn yn:

- Cefnogi prosiectau i sicrhau eu bod yn cyflawni eu canlyniadau bwriedig
- Datrys problemau a cheisio cael gwared ar rwystrau
- Nodi a helpu i liniaru risgiau, gan uwchgyfeirio lle bo angen
- Adrodd ar gynnydd prosiectau
- Hwyluso a chefnogi adolygiadau darbodus ac arferion mapio prosesau busnes

## Cefnogaeth Ehangach i'r Rhaglen Drawsnewid

Yn ogystal â'r tîm rhaglen drawsnewid, gwerthfawrogir y bydd angen adnoddau gan wasanaethau cymorth corfforaethol ar draws y Cyngor i sicrhau fod y Cyngor yn gallu darparu ei gynlluniau a'i brosiectau trawsnewid.

Mae achosion busnes ar gyfer prosiectau trawsnewid newydd yn ceisio penderfynu pa wasanaethau cymorth corfforaethol sydd eu hangen ar gyfer y prosiect.  Bydd hyn yn helpu â dyrannu a blaenoriaethu adnoddau ar gyfer prosiectau.

Rhagwelwn y bydd y galw ar y meysydd canlynol yn cynyddu wrth i'r Cyngor ddatblygu ei waith trawsnewid:

Tabl 3: Rôl Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol yn y Rhaglen Drawsnewid

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau TG | Darparu arbenigedd technegol ar gyfer unrhyw brosiectau digidol.<br>Cynorthwyo â chaffael unrhyw dechnoleg newydd.<br>Darparu cefnogaeth ar gyfer systemau a meddalwedd newydd a bod yn gyfrifol am eu cyflwyno. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Cyllid | Darparu diweddariadau ariannol ar lefel prosiect.<br>Sicrhau fod datganiadau dull yn cael eu cwblhau a'u dilysu.<br>Helpu i fonitro ac adrodd ar dargedau/buddion a gyflawnir. |
| Archwilio Mewnol | Cyfaill beirniadol sy'n monitro ymarfer a phrosesau llywodraethu.<br>Nodi meysydd ar gyfer gwelliant/trawsnewid. |
| Adnoddau Dynol a Datblygiad Galwedigaethol | Darparu canllawiau a chymorth priodol mewn perthynas ag unrhyw effaith ar weithwyr o ganlyniad i unrhyw brosiect trawsnewid.<br>Helpu i sicrhau ein bod yn recriwtio, cadw, datblygu sgiliau a hyfforddi'r gweithlu.<br>Cefnogi prosiectau penodol sy'n gysylltiedig â'r gweithlu. |
| Cyfreithiol | Darparu cyngor, neu gyfeirio at gyngor priodol, ar gyfer unrhyw faterion cyfreithiol neu bolisi sy'n gysylltiedig â phrosiectau trawsnewid.<br>Cyngor ar faterion a rheoli contractau. |
| Caffael | Cyngor a chanllawiau ar lwybrau derbyniol i gaffael a sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol cyfrifol cymdeithasol a chaffael newydd. |
| Cyfathrebiadau | Cefnogi gyda datblygu a darparu'r cynllun cyfathrebiadau trawsnewid. |

DRAFT

# Geirfa

Cyllid Allanol Cyfun (AEF):  Y gefnogaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gwariant refeniw lleol, sy'n seiliedig ar grant fformiwla sy'n cynnwys y grant cynnal refeniw a'r rhan ddosbarthadwy o ardrethi annomestig.

Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yw strategaeth y Cyngor sy'n rhagweld yr adnoddau ariannol a fydd ar gael i'r Cyngor am gyfnod penodol, ynghyd â chynllun ar gyfer sut i fanteisio i'r eithaf ar yr adnodd hwnnw er mwyn bodloni dyletswyddau, rhwymedigaethau a blaenoriaethau'r Cyngor.

Cronfeydd wrth gefn: Dyma falensau mewn llaw sydd wedi cynyddu dros flynyddoedd blaenorol ac sy'n cael eu dal at bwrpasau wedi eu nodi (cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd) a phwrpasau cyffredinol (cronfeydd cyffredinol). Mae gofyn i Gynghorau adolygu lefel a phwrpas eu cronfeydd wrth gefn yn rheolaidd ac ystyried cyngor y Prif Swyddog Cyllid.

Refeniw: Term a ddefnyddir i ddisgrifio costau rhedeg dydd i ddydd gwasanaethau'r Cyngor ac incwm sy'n dod o'r gwasanaethau hynny.  Mae hefyd yn cynnwys ffioedd ar gyfer ad-dalu dyled, gan gynnwys elw, a gall gynnwys ariannu gwariant cyfalaf yn uniongyrchol.

DRAFT